


# GROW YOUR OWN POTATOES



## Tyfu Tatws

### Gwers 3: Beth sydd ei angen ar datws i dyfu

#### Bydd y plant yn:

- Dysgu beth sydd ei angen ar datws i dyfu'n dda.

Mae'r gweithgaredd hwn ar wahân i'r prosiect GYOP a bydd angen yr adnoddau ychwanegol canlynol:

- 4 taten hadu
- 4 pot mawr 10 litr (mi allech chi ddefnyddio bwcedi)
- Darnau o lestr/potiau planhigion wedi torri neu gerrig bach
- Pridd neu gompost i lenwi'r potiau

Gall y plant wneud y gwaith ymchwil mewn grwpiau neu mi allech chi ei gwblhau fel dosbarth. Gweler **taflen ffeithiau 4 Ymchwiliad tyfu tatws** i gael syniadau am offer a gwaith ymchwil.

**Grwpiau:** Gall pob grŵp blannu 4 taten mewn pedwar cynhwysydd ar wahân, gan gadw un fel taten reoli a newid un amrywiad gwahanol ar gyfer y tri arall.

**Dosbarth:** Rhannwch y dosbarth yn bedwar grŵp gyda phob grŵp yn gyfrifol am dyfu un daten gydag amrywiad gwahanol. Gyda phlant iau gallech blannu un daten reoli'n unig ac un neu ddau amrywiad arall.

Gellir paratoi'r ymchwiliad hwn i'w gwblhau ar wahân neu ar y cyd â sesiwn flaenorol (Gwers 2).

#### Cyflwyniad

Trafodwch gyda'r plant beth maen nhw'n meddwl sydd ei angen i wneud i daten dyfu'n dda (golau, dŵr).

Gofynnwch iddyn nhw sut maen nhw'n gwybod hynny, a sut allen' nhw gadarnhau beth maen nhw'n meddwl.

Dywedwch wrthyn nhw y gallant newid neu gael gwared ag un o'r amodau maen nhw'n meddwl mae'r daten ei angen i weld a ydy hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth.

Trafodwch y pethau allech chi newid, e.e. tymheredd, dŵr, golau, pridd. Edrychwch ar **daflen ffeithiau 4 Ymchwiliad tyfu tatws** i gael syniadau.

Gyda phlant hŷn gellir cyfeirio at y rhain fel amrywiadau neu ffactorau.

Esboniwch fod angen iddyn nhw, er mwyn gweld a ydy'r newidiadau hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth, dyfu taten yn y ffordd arferol hefyd, er mwyn gwneud cymhariad.

Gelwir y daten a dyfir yn y ffordd arferol yn daten reoli. Rhaid tyfu'r daten/tatws eraill yn yr un ffordd hefyd, ond gan newid/amrywio un amod/ffactor er mwyn gweld ai hynny sy'n gwneud y gwahaniaeth mewn gwirionedd.



# GROW YOUR OWN POTATOES



## Tyfu Tatws

**Gwers 3: Beth sydd ei angen ar datws i dyfu - parhad**

### Tasg

Gadewch i'r plant blannu eu tatws.

Trafodwch hyn gyda'ch gilydd yn gyntaf i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau mai dim ond yr amrywiad/ffactor sy'n cael ei newid a bod y gweddill yn aros yr un peth, fel bod y prawf yn un teg.

Trafodwch y syniad o 'brawf teg' gyda'r plant i wneud yn siŵr eu bod yn deall.

### 5-7 Oed

Gallech sefydlu cofnod dosbarth neu gallai'r plant gadw'u cofnodion eu hunain. O bosib byddwch am ddefnyddio **taflen waith 4 Ymchwiliad tatws** (sy'n cymharu taten reoli â thaten gydag amrywiad) neu **daflen waith 5 Ymchwiliad tatws** (sy'n cymharu un daten reoli â thri amrywiad)

### 7-11 Oed

Gall bob plentyn gael ei gopi ei hun o daflen waith i gofnodi'i sylwadau. Mi allech chi ddefnyddio **taflen waith Ymchwiliad tatws 4 neu 5**.

### Crynodeb

Ewch drwy'r cyfan yn gyflym unwaith eto, gofynnwch i'r plant:

- Beth ydyn ni'n ceisio'i ganfod?
- Beth ydyn ni wedi'i wneud?
- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd?
- Sut ydych chi wedi gwneud yn siŵr ei fod yn brawf teg?

Trafodwch sut y byddwch chi'n cofnodi'r ymchwiliad, gan gynnwys pa mor aml fyddwch chi'n gwneud sylwadau.

### Gallech hefyd ...

- Dyfu gwahanol fathau o datws ac ymchwilio pa fath sy'n tyfu gyflymaf, a sut maen nhw'n amrywio o ran golwg?

Mi allech chi ddefnyddio'r ddau fath a ddarperir gan y Cyngor Tatws.

Mi allech chi ddefnyddio **taflen waith 6 Ydyn nhw'r un fath?** i helpu i gofnodi'ch canfyddiadau.

- Gadewch i'r plant roi cynnig ar y gêm 'Grow Your Own Potatoes' sydd ar y wefan isod.

